Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-28-17 P2

Hydref 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2019

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Fe'i paratowyd a gosodwyd ar y cyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 20(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Wales Audit Office 2017

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Garner
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

Rhagair

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar y cyd amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

Yn unol ag Adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif fel y gwêl yn dda, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiadau heb wneud y canlynol:

- ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- ystyried unrhyw sylwadau y gall y naill neu'r llall eu gwneud.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn gynnig cynnig yn y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a'r taliadau i'w gwneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

Caiff Cynllun Ffioedd drafft, a baratowyd o dan Adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ei gynnwys i'w ystyried ochr yn ochr â'r Amcangyfrif am eu bod yn ddibynnol ar ei gilydd.

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Ein Gwaith	7
Gwerth am arian yn Swyddfa Archwilio Cymru	8
Cyllido ein blaenoriaethau strategol	12
Newidiadau ar gyfer 2018-19 o gymharu â 2017-18	29
Recriwtio a chadw staff	30
Buddsoddi cyfalaf a TGCh	31
Cynllun Ffioedd drafft 2018-19	33
Rhagolwg	35
Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2019	36

Atodiadau

Atodiad 1 – Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2018-19	39
Atodiad 2 – Y prif weithgareddau gweithredol a ffynonellau cyllid cysylltiedig	42
Atodiad 3 – Cynllun Ffioedd drafft 2018-19	44

Cyflwyniad

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi paratoi'r Amcangyfrif hwn ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, gan gyflawni ein cylch gorchwyl statudol i ddarparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol a sicrhau adnoddau ar gyfer ein rhaglen waith ein hunain.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol yw galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru i wybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth. Drwy'r ddogfen hon, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ailddatgan ei hymrwymiad i chwarae ei rhan mewn cyfnod o gyni gan ddiogelu arian cyhoeddus a gweithio gyda'r cyrff a archwilir gennym i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn cael eu gwella'n barhaus.

Mae'r £21.6 miliwn a gaiff ei wario'n flynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn cynrychioli dim ond un rhan o fil o'r £18 biliwn a gaiff ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Mae rôl hanfodol gwaith archwilio annibynnol yn bwysicach nag erioed pan fo adnoddau'n brin ac mae gwneud penderfyniadau cadarn yn fwyfwy allweddol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

Mae ein Hamcangyfrif, fel y'i cymeradwyir gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn dibynnu'n uniongyrchol ar y cyfraddau ffioedd a gynigiwn ar gyfer gwaith archwilio. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Cynllun Ffioedd drafft fel y gall y Pwyllgor Cyllid ei ystyried ochr yn ochr â'r Amcangyfrif. Mae'r cyfraddau ffioedd a'r graddfeydd ffioedd statudol a ddangosir wedi bod yn destun ymgynghoriad â chyrff llywodraeth leol, fel sy'n statudol ofynnol, yn ogystal â'r holl sectorau eraill a archwilir. Drwy adolygu ein dull archwilio a gwneud ymdrech i ddefnyddio mwy o ddata a thechnoleg, rydym yn ceisio lleihau ein ffioedd archwilio dros amser gan sicrhau archwiliadau o ansawdd ar yr un pryd ar gyfer yr holl gyrff a archwilir gennym.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol iawn o'r cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi ailddyrannu adnoddau a oedd gennym eisoes ac wedi nodi arbedion cost pellach er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau strategol ac ateb pwysau cost eraill. O ganlyniad, nid ydym yn ceisio mwy o gyllid na'r swm y gofynnwyd amdano ar gyfer 2017-18, ac eithrio ar gyfer costau cylchol sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cael cyllid trosiannol penodedig i ddatblygu ein dull archwilio i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol heb orfod codi ffioedd ar y cyrff a archwilir gennym. Caiff y gwaith datblygu hwn ei gwblhau yn ystod 2017-18 ac, yn y dyfodol, caiff unrhyw waith archwilio sydd ei angen ei gyllido gan y ffioedd a godir ar y cyrff a archwilir gennym. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd cost ychwanegol am hyn ond, i rai cyrff llywodraeth ganolog, bydd angen cynnydd cymesur yn y ffioedd a godir, sy'n adlewyrchu'r ffait

Ym mis Mawrth 2017, gwnaethom amlinellu ein blaenoriaethau allweddol, ein hamcanion a'n mesurau perfformiad yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18. Diben yr Amcangyfrif hwn yw dangos sut y caiff ein blaenoriaethau ar gyfer 2018-19 eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Caiff Cynllun Blynyddol 2018-19 ei ddiweddaru a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2018.

Isobel Garner
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ein gwaith

1 Fel archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru.

2 Mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru roi i'r Archwilydd Cyffredinol yr adnoddau sydd eu hangen arno i wneud ei waith yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'n costau yn ymwneud â'r staff a gyflogir gennym, ein contractwyr, darparu gwasanaethau archwilio ledled Cymru a darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol i gyflawni'r gwaith. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

3 Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac yn cynnal asesiadau gwella blynyddol ym mhob un o'r 28 o awdurdodau gwella llywodraeth leol ac asesiadau strwythuredig o bob un o 10 corff y GIG. Mae'n cyhoeddi tua 14 o adroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian a'r defnydd cywir o arian cyhoeddus, yn ardystio ceisiadau am grantiau gwerth £2.5 biliwn, ac yn cynghori ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol i'w gweld yn Atodiad 2.

4 Y gwaith hwn sy'n darparu'r cwantwm ar gyfer adennill costau Swyddfa Archwilio Cymru, drwy'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

5 Mae'r Bwrdd yn darparu staff medrus iawn i gyflawni tua 90% o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, a ategir gan 10% arall o adnoddau archwilio a ddarperir o dan gontract gan gontractwyr arbenigol a chwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat.

6 Mae Cynllun Blynyddol 2017-18 yn amlinellu ein blaenoriaethau strategol, ac mae'r Amcangyfrif hwn ar gyfer 2018-19 yn dangos faint o arian sydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau hynny ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gwerth am arian yn Swyddfa Archwilio Cymru

7 Disgwyliwn wario £21.6 miliwn yn 2018-19 ar ddarparu gwasanaethau archwilio cyhoeddus ledled Cymru. Mae hyn yn cynrychioli un rhan o fil o'r cyfanswm gwariant o £18 biliwn rydym yn rhoi sicrwydd yn ei gylch.

8 Mae'r rhan fwyaf o'n gwariant (bron 75%) yn ymwneud â chostau staff – y staff a gyflogir yn uniongyrchol gennym a staff tymhorol, a staff arbenigol dan gontract a ddefnyddir gennym ar adegau brig o ran llwyth gwaith ac er mwyn darparu sgiliau arbenigol ar gyfer darnau unigol o waith.

9 Mae'r £2.2 miliwn a gaiff ei wario ar gostau eraill yn cynnwys £0.5m o TAW anadenilladwy ar nwyddau a gwasanaethau o ganlyniad i statws TAW arbennig Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r gost hon wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n rhaid ei thalu drwy wneud arbedion mewn cyllidebau eraill.

10 Caiff tua 68% o'n gwariant ei gyllido gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir; daw'r 32% arall yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

11 Dengys Arddangosyn 1 ble rydym yn bwriadu gwario'r arian hwn yn 2018-19 a sut y caiff ei gyllido.

Arddangosyn 1 – Gwariant ac Incwm Swyddfa Archwilio Cymru 2018-19





12 Ers 2010-11, y flwyddyn y dechreuodd yr Archwilydd Cyffredinol presennol yn ei swydd, mae cost gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru wedi gostwng 15% mewn termau real[1], fel y dangosir yn Arddangosyn 2. Mae'r arbediad cronnol a sicrhawyd yn ystod y blynyddoedd hynny yn cyfateb i bron £19 miliwn, sy'n lleihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac eithrio ar gyfer cyfrifoldebau newydd y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Cyllid, a'r swm sydd angen ei godi o ffioedd archwilio.

Arddangosyn 2 – Gwariant 2010-11 i 2018-19



13 Yn ystod yr un cyfnod rydym wedi gweithio'n galed i amsugno costau uwch cytundebau cyflog, codiadau cyflog cytundebol, chwyddiant cyffredinol a chynnydd yng nghyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwyr. Rydym wedi gwneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- Diwygio cymysgedd sgiliau ein staff gan leihau nifer yr uwch reolwyr a chynyddu nifer yr hyfforddeion graddedig
- Lleihau costau drwy gynyddu effeithlonrwydd ein canolfan gorfforaethol
- Gorffen rhoi'r cynllun teithio newydd i staff ar waith, gan arbed 11% yn flynyddol
- Arbedion caffael o safbwynt ein defnydd o gwmnïau sector preifat a systemau corfforaethol gan gynnwys cofnodi amser a rheoli treuliau
- Lleihau nifer yr uwch Gyfarwyddwyr drwy gael dim ond un Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol yn lle dau.

1 Yn seiliedig ar ddatchwyddwyr CDG a gyhoeddwyd gan SYG ym mis Mehefin 2017.

14 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru ei hun yn sefydliad atebol a redir yn dda sy'n dangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o'r safon uchaf a bod ein gwaith yn cynnig gwerth da am arian. Gan adeiladu ar arbedion a sicrhawyd mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn gwneud gwaith blaengynllunio a fydd yn ein galluogi i sicrhau arbedion ychwanegol ar gyfer 2018-19.

15 Rydym yn buddsoddi mewn prosiectau trawsnewid strategol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gael yr effaith fwyaf bosibl yn yr amgylchedd newidiol sy'n ein hwynebu. Mae'n bwysig i ni ein bod yn cyflawni ein hamcanion strategol mewn ffordd gost-effeithiol, yng nghyd-destun ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynllun y Gweithlu. Cafodd ein prosiect cyntaf 'Archwilio Arloesol' ei gwblhau yn ystod 2017-18 a gwnaed saith argymhelliad allweddol – caiff yr argymhelliad cyntaf yn ymwneud â datblygu tîm Dadansoddi Data ei egluro ymhellach yn yr Amcangyfrif hwn.

Cyllido ein blaenoriaethau strategol

Blaenoriaeth Strategol 1

Adrodd ag awdurdod ar b'un a yw cyrff cyhoeddus yn ymddwyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000
Datblygu ein dull archwilio a chymedroli'r effaith ar ffioedd am waith sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.	**Dim**	300

16 Yn ystod 2016-17 a 2017-18 cawsom gyllid i'n galluogi i ddatblygu ein dull archwilio mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol heb orfod codi ffioedd ar y cyrff a archwilir am y gwaith hwn. Mae Arddangosyn 3 yn dangos sut rydym wedi defnyddio'r cyllid hwn yn ystod 2017-18.

17 Wrth i ni symud i'r cam 'busnes fel arfer', o 2018-19, byddwn yn addasu ein gwaith archwilio mewn cyrff Llywodraeth Leol a chyrff y GIG er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn y ffioedd cyfredol. Ni fydd yn bosibl i ni wneud hyn yn achos cyrff llywodraeth ganolog, gan nad oes rhaglen o waith archwilio perfformiad ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Llywodraeth Ganolog, ac felly bydd yn rhaid i ni godi ffi am y gwaith sydd ei angen. Rydym wrthi'n trafod goblygiadau hyn â'r cyrff unigol a archwilir gennym.

18 Yn 2018-19, ni fydd angen cyllid a ddyfarnwyd yn 2017-18 er mwyn datblygu a threialu gwaith sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Arddangosyn 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – 2017-18

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – 2017-18
Datblygu ein dull archwilio Rydym yn defnyddio'r rhan fwyaf o gyllid Cronfa Gyfunol Cymru i dalu costau staff sy'n gysylltiedig â datblygu, profi ac ymgynghori ar ein dull archwilio heb effeithio ar ffioedd cyrff a archwilir. Defnyddir arian i gyflogi Rheolwr Prosiect dynodedig ac adlenwi staff archwilio sydd ynghlwm wrth weithgarwch datblygu heb drosglwyddo'r costau hynny drwy ffioedd.
Safleoedd peilot Rydym yn gweithio gyda'r cyrff canlynol i ddatblygu a phrofi dulliau archwilio yn ystod 2017-18. Y cyrff peilot yw: • Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan • Cyngor Bro Morgannwg • Y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol • Llywodraeth Cymru • Cyfoeth Naturiol Cymru • Chwaraeon Cymru • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu â chyrff peilot a rhanddeiliaid ehangach er mwyn dylunio a datblygu dulliau archwilio. Bydd hefyd yn cynnwys gwerthuso'r dulliau hynny a datblygu adnoddau, canllawiau a hyfforddiant er mwyn helpu i'w rhoi ar waith yn ystod gwaith archwilio yn y dyfodol.
Sylwebaeth Blwyddyn Un Rydym yn ymgymryd â Sylwebaeth Blwyddyn Un er mwyn nodi sut mae pob un o'r 44 corff yn dechrau ymateb i ofynion y Ddeddf a rhannu enghreifftiau o arfer da sy'n dod i'r amlwg.

Blaenoriaeth Strategol 2

Cefnogi rheolaeth ariannol gadarn yn y sector cyhoeddus mewn cyfnod o gyni

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000
Cost yr astudiaethau gwerth am arian a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys Astudiaethau Cenedlaethol ym maes Llywodraeth Leol a chrynodebau Cymru gyfan o waith archwilio lleol yn y GIG. Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill (Amser staff)	**2,720**	2,720
Gwaith ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig â'n gwaith archwilio perfformiad ym maes Llywodraeth Leol (Amser staff)	**280**	325[2]
Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. (Amser staff)	**190**	190
Budd ehangach i'r sector cyhoeddus		
Y Gyfnewidfa Arfer Da. (Amser staff a chostau cysylltiedig)	**540**	540
Cyllid cylchol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol (Amser staff a ffioedd am gymryd rhan)	**180**	50
Cyfanswm Blaenoriaeth Strategol 2	**3,910**	**3,825**

2 Amcangyfrif Atodol 2017-18

Adroddiadau cenedlaethol, gan gynnwys gwaith adweithiol – £2.72 miliwn

19 Rydym yn ceisio llunio o leiaf 14 o adroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn yn seiliedig ar waith archwilio o rannau amrywiol o raglen yr Archwilydd Cyffredinol. O'r adroddiadau hyn, fel arfer, byddem yn disgwyl y byddai o leiaf 10 ohonynt, drwy eu natur, yn ddeunydd a fyddai'n cefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a/neu bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

20 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried barn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth benderfynu ar y gwaith i'w wneud fel rhan o'i raglen o archwiliadau gwerth am arian. Mae'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rheolaidd ar yr holl waith archwilio sy'n mynd rhagddo a allai gefnogi gwaith y Pwyllgor.

21 Mae rhai o'r adroddiadau cenedlaethol a gwblhawyd yn ddiweddar yn cynnwys Adolygiad o Weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 ac ystyriaeth o drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

22 Byddwn yn parhau i neilltuo adnoddau i ddarparu'r capasiti angenrheidiol a datblygu ein gallu i wneud gwaith adweithiol mewn ymateb i faterion a gaiff eu dwyn i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill. Mae'r adnoddau a neilltuir at y diben hwn o amcangyfrif 2018-19 yn ymwneud yn bennaf â gwaith y tîm astudiaethau ymchwiliol a sefydlwyd gennym yn 2015. Mae enghreifftiau diweddar o adroddiadau cenedlaethol a arweiniwyd gan y tîm astudiaethau ymchwiliol yn cynnwys adolygiad o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf ac adolygiad o gyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru.

Ymchwil a datblygu: Archwilio Perfformiad Llywodraeth Leol – £0.28 miliwn

23 Yn ystod 2017-18, daeth i'r amlwg bod cynigion ar gyfer defnyddio Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn tynnu'n gynyddol groes i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, fel y nodir yn adran 8(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. O ganlyniad, gwnaethom ninnau a Llywodraeth Cymru gytuno nad oedd yn briodol i ni gael y grant hwn o £460,000 y flwyddyn mwyach. Tynnodd Amcangyfrif 2017-18 sylw at y potensial hwn ac mae'n destun Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2017-18 a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid.

24 Mae angen arian o hyd i ddarparu capasiti ar gyfer y gwaith ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig â gwaith archwilio perfformiad Llywodraeth Leol Cymru gyfan, gan gynnwys:

- datblygu dulliau archwilio,
- adnoddau asesu risg, a
- meincnodi gwybodaeth am berfformiad ledled Cymru.

25 Mae gwaith ymchwil a datblygu yn ein galluogi i ddatblygu cynhyrchion sy'n ein helpu i weithio mewn ffordd amserol a chosteffeithiol, gan leihau'r ffioedd y mae angen i ni eu codi am y gwaith hwn.

26 Hebddo, ni allwn gynnal rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym wedi adolygu faint o waith ymchwil, datblygu a rheoli sydd ei angen ac rydym yn amcangyfrif y bydd yn costio £280,000 yn 2018-19. Os na chaiff y gwaith hwn ei gyllido o Gronfa Gyfunol Cymru, bydd angen i ni drosglwyddo'r costau i'r cyrff Llywodraeth Leol a archwilir gennym drwy gynyddu ffioedd.

Cyfnewid Arfer Da – £0.54 miliwn

27 Sefydlwyd ein Cyfnewidfa Arfer Da yn 2006 i gasglu a rhannu gwybodaeth berthnasol ac arferion arloesol er mwyn helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau gwell drwy ddefnyddio seminarau dysgu ar y cyd, canllawiau ar-lein, astudiaethau achos a'r cyfryngau cymdeithasol.

28 Daeth adroddiad diweddar ar effaith ein gwaith archwilio gan Rocket Science, ymgynghoriaeth sydd hefyd wedi gweithio gyda swyddfeydd archwilio eraill, i'r casgliad bod y Gyfnewidfa Arfer Da yn wirioneddol arloesol.

29 Mae'r digwyddiadau a gynhelir yn 2017-18 yn cynnwys seminarau ar reoli risg a newid sefydliadol, gweminarau ar gydnerthedd ariannol, safonau agored a chynllunio'r gweithlu a seminarau ar sut i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd wrth ddarparu gwasanaethau drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae rhestr lawn o ddigwyddiadau ar gael ar ein gwefan.

30 Yn ystod 2016, cafodd gweithgareddau'r Gyfnewidfa Arfer Da eu gwerthuso gan y Ganolfan Astudiaethau Systemau, Ysgol Fusnes Prifysgol Hull. Adeiladodd y gwerthusiad ar allbynnau adolygiadau ehangach gan Swyddfa Archwilio Cymru a chadarnhaodd brofiad cadarnhaol rhanddeiliaid allweddol y Gyfnewidfa Arfer Da, megis arolwg Prif Weithredwyr 2016 a ddangosodd fod 84% ohonynt o'r farn bod gwaith y Gyfnewidfa o fudd i wasanaethau cyhoeddus. Canolbwyntiodd Prifysgol Hull yn benodol ar y gwerth a gaiff ei greu drwy ddatblygu rhwydwaith o gyfalaf cymdeithasol, perthynol ac enw da ym mhob rhan o Wasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae Tîm y Gyfnewidfa yn gymharol fach sy'n golygu y gall weithio mewn modd darbodus a hyblyg, gan ddefnyddio awdurdod ac annibyniaeth gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol. Mae hyn yn creu amgylchedd o ymddiriedaeth a hygrededd, sy'n helpu i hwyluso'r broses o drosglwyddo arfer da rhwng unigolion a sefydliadau.

31 Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod effaith y rhwydweithiau a ddatblygir gan dîm y Gyfnewidfa a'i weithgareddau yn cael canlyniadau cadarnhaol pellgyrhaeddol o ran ansawdd profiadau dinasyddion a chost i bwrs y wlad. Ystyriwyd bod gallu, enw da a safle'r Gyfnewidfa o fewn Swyddfa Archwilio Cymru yn ffactor cadarnhaol iawn, ac yn gyfle i helpu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i newid i fodelau darparu gwasanaeth sydd eu hangen er mwyn ymdopi â phwysau demograffig, economaidd a deddfwriaethol yn y dyfodol.

Y Fenter Twyll Genedlaethol – £0.18 miliwn

32 Mae ein Hamcangyfrif hefyd yn darparu cyllid fel y gall cyfranogwyr gorfodol a gwirfoddol yn y Fenter Twyll Genedlaethol wneud hynny am ddim. Ers ei lansio yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi canfod ac atal twyll a gordaliadau gwerth mwy na £30 miliwn yng Nghymru, ac £1.3 biliwn ledled y DU.

33 Dywed cyrff cyhoeddus wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y Cynulliad yn ariannu'r gwasanaeth hwn drwy ein Hamcangyfrif. Mae chwech o gyrff eraill wedi ymgofrestru'n ddiweddar a byddem yn disgwyl i'r nifer hon gynyddu yn 2018-19 pan fyddwn yn cyflwyno'r rhaglen casglu data lawn.

34 Ar gyfer 2017-18, roedd ein Hamcangyfrif yn cynnwys cyllid o £50,000 ar gyfer y flwyddyn gyntaf yng nghylch dwy flynedd y Fenter. Mae costau'n cynyddu yn ystod ail flwyddyn y cylch ac yna'n gostwng eto i'r lefel is y flwyddyn ganlynol. Costau casglu a dadansoddi data ac adrodd yn ôl i'r cyfranogwyr sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn. Ar gyfer 2018-19, y gost amcangyfrifedig yw £180,000, sef £100,000 ar gyfer cyfranogwyr gorfodol, £50,000 ar gyfer cyfranogwyr gwirfoddol ychwanegol a £30,000 i ddefnyddio system gwirio data.

35 Er mwyn sicrhau y gall cyrff barhau i gymryd rhan am ddim yn y Fenter, rydym yn ceisio cynnydd o £130,000 yng nghyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn 2018-19, a fydd yn gostwng unwaith eto y flwyddyn ganlynol.

Blaenoriaeth Strategol 3

Defnyddio data yn fwy effeithiol a chroesawu'r dechnoleg ddiweddaraf

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000
Rhaglen drawsnewid strategol gan gynnwys Dadansoddi Data (Amser staff a chostau cysylltiedig)	**310**	100

Dadansoddi Data £0.26m

36 Roedd Amangyfrif 2017-18 yn cynnwys cyllid ar gyfer prosiect i nodi meysydd â blaenoriaeth i drawsnewid y ffordd rydym yn defnyddio data a thechnoleg. Yn sgil prosiect 'Archwilio Arloesol' y Swyddfa Archwilio, cyflwynwyd wyth argymhelliad i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac, ym mis Medi 2017, cefnogodd y Bwrdd achos busnes amlinellol i geisio sicrhau buddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn dadansoddi data fel mater o flaenoriaeth.

37 Mae dadansoddi data yn agenda sy'n datblygu'n gyflym i nifer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat ac mae'n cyfeirio at ddefnyddio technoleg i ddadansoddi a chyflwyno data fel y gellir dod i gasgliadau ynghylch y wybodaeth a geir yn y data hynny. Mae enghreifftiau o waith dadansoddi data yn cynnwys defnyddio codau cyfrifiadurol i awtomeiddio agweddau ar ddadansoddi data a defnyddio meddalwedd delweddu data i gyflwyno data mewn ffyrdd newydd, treiddgar er mwyn sicrhau mwy o effaith a dealltwriaeth. Mae Arddangosyn 4 yn nodi rhai o fanteision disgwyliedig buddsoddi mewn dadansoddi data.

Arddangosyn 4 – Manteision buddsoddi mewn Dadansoddi Data

Manteision buddsoddi mewn Dadansoddi Data
Cael mwy o sicrwydd o'n gwaith Bydd dadansoddi data yn rhoi sail dystiolaeth well a mwy cynhwysfawr ar gyfer ein gwaith. Gallwn ddod i gasgliadau cadarnach oherwydd gallwn archwilio poblogaethau data cyfan, a/neu ddefnyddio samplau ystadegol yn hytrach na seilio ein casgliadau ar samplau llai a beirniadol o'r data.
Cael mwy o ddealltwriaeth o'n gwaith Bydd dadansoddi data yn ei gwneud yn llawer haws i ddod o hyd i batrymau mewn data, cysylltiadau cudd a thueddiadau rhwng sectorau. Bydd y wybodaeth a ddaw i law drwy ddadansoddi data yn ein helpu i ofyn cwestiynau ynghylch y data na fyddem wedi meddwl amdanynt yn flaenorol. Mae ein dulliau dadansoddi data presennol yn tueddu i edrych yn ôl drwy edrych ar yr hyn sydd eisoes wedi digwydd mewn cyrff cyhoeddus. Bydd dadansoddi data yn ein helpu i ddatblygu dulliau modelu a rhagfynegi yn y dyfodol, gan ein helpu i symud tuag at waith archwilio sy'n edrych i'r dyfodol ac yn rhagfynegol.
Mwy o effaith drwy ddelweddu data Bydd dadansoddi data yn ein helpu i ddangos canfyddiadau ein gwaith archwilio mewn ffordd llawer mwy diddorol. Drwy feddalwedd a dulliau delweddu data, byddwn yn cyflwyno gwybodaeth ryngweithiol a fydd yn helpu ein cynulleidfaoedd i archwilio a deall y data, er mwyn eu galluogi i ofyn cwestiynau ar sail y ddealltwriaeth hon.
Ychwanegu gwerth at ein gwaith mewn cyrff a archwilir Bydd dadansoddi data yn ein helpu i ychwanegu mwy o werth at ein harchwiliadau. Bydd ein dulliau gweithredu newydd sy'n seiliedig ar ddata yn datgelu pethau am y cyrff a archwilir gennym nad oeddent yn hysbys o'r blaen. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennym yn helpu'r cyrff dan sylw i gymryd perchenogaeth a gwneud defnydd gwell o'u gwybodaeth eu hunain, gan atgyfnerthu eu gallu ym maes data.

Manteision buddsoddi mewn Dadansoddi Data
Gweithio'n fwy effeithlon Bydd dadansoddi data yn ein helpu i gwblhau elfennau o'n gwaith yn gyflymach. Gallwn gael data gan y cyrff a archwilir gennym yn gyflymach a byddwn yn rheoli'r data hynny mewn ffordd fwy effeithiol a diogel. Bydd data ar gael yn haws i archwilwyr, gan ein helpu i leihau hyd ein harchwiliadau. Caiff agweddau ar ein prosesau dadansoddi data eu hawtomeiddio, gan roi amser i staff ganolbwyntio ar waith gwerth uwch. Fodd bynnag, er bod arbedion ariannol yn bosibl yn yr hirdymor, ni ellir eu cyflawni heb amser a buddsoddiad.
Gwell deallusrwydd busnes yn Swyddfa Archwilio Cymru Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio dulliau dadansoddi data yn ein swyddogaethau corfforaethol. Bydd deallusrwydd busnes gwell yn gwella ein gallu i gynllunio, cynnal a mesur ein gwaith, gan arwain at benderfyniadau doethach ac effaith ar berfformiad.

38 Yn ogystal â'r manteision a nodir uchod, bydd rhai risgiau sylweddol i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru os na fyddwn yn buddsoddi mewn dadansoddi data. Mae cyrff archwilio eraill a chwmnïau archwilio preifat eisoes yn buddsoddi mewn dadansoddi data ac mae angen i ni ddal i fyny er mwyn osgoi syrthio y tu ôl i arferion safonol y diwydiant. Mae disgwyliad cynyddol o fewn y cyrff a archwilir gennym y dylem ddefnyddio technegau dadansoddi data yn ein gwaith. Yn olaf, gan fod dadansoddi data yn debygol o fod yn faes allweddol o ran archwilio yn y dyfodol (yn gysylltiedig â datblygiadau mewn Deallusrwydd Artiffisial), os na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn buddsoddi mewn dadansoddi data, ni fydd y sefydliad yn denu staff newydd.

39 Bydd angen buddsoddi mewn dadansoddi data dros y tymor canolig i'r hirdymor. Mae ein hymchwil hyd yma yn dangos y bydd yn cymryd dros dair blynedd i gyflwyno gallu i ddadansoddi data. Fodd bynnag, wrth i'n gallu ddatblygu, ac wrth i dechnegau dadansoddi data wreiddio'n ddyfnach yn y sefydliad, rhagwelwn y bydd gwaith dadansoddi data yn dod yn rhan safonol o'n dull archwilio dros amser ac y caiff, felly, ei gyllido drwy ein trefn ffioedd sefydledig ac nid drwy gyllid ychwanegol.

Trawsnewid Strategol £0.05m

40 Yn ogystal â'n cynigion i fuddsoddi mewn Dadansoddi Data, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein prosiect Trawsnewid Strategol gan edrych ar ffyrdd radical o drawsnewid ein prosesau archwilio a busnes erbyn 2025. Ar gyfer 2018-19 rydym yn cynnig gostyngiad o £50,000 yn y cyllid hwn yn sgil y prosiect buddsoddi mawr a amlinellir uchod.

Blaenoriaeth Strategol 4

Symleiddio ein prosesau busnes a chryfhau ein trefni-adau llywodraethu

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000
Blaenoriaeth Strategol 4		
Buddsoddi mewn dysgu a datblygu staff a chynllunio olyniaeth.	**500**	500
Cynorthwyo hyfforddeion archwilio Swyddfa Archwilio Cymru.	**320**	320
Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru	**315**	300
Cydraddoli costau teithio Cymru gyfan.	**285**	300
Deallusrwydd sectoraidd	**130**	130
Cyllid dibrisio ar gyfer asedau cyfalaf	**50**	50
Sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg	**Nil**	20
Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol	**Nil**	Nil
Budd Ehangach i'r Sector Cyhoeddus		
Datblygu Sgiliau Cyllid	**207**	212
Prentisiaethau yn Swyddfa Archwilio Cymru	**40**	Nil
Cyfanswm Blaenoriaeth Strategol 4	**1,847**	**1,832**

Dysgu a datblygu staff – £0.82 miliwn

41 Mae datblygu a hyfforddi ein staff yn flaenoriaeth allweddol o hyd i Swyddfa Archwilio Cymru ac, i'r staff hynny sydd â chymwysterau proffesiynol, mae hyn yn bodloni'r gofyniad eu bod yn ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Caiff y costau sy'n gysylltiedig â hyn (amser staff a chostau hyfforddiant allanol) eu talu gan ddefnyddio Cronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir.

42 Yn ogystal â rhaglen secondiadau i hyfforddeion graddedig Cymru gyfan, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn buddsoddi amser ac adnoddau mewn datblygu hyfforddeion graddedig at ei defnydd ei hun.

43 Rydym yn gweithio tuag at darged lle mae 80% o'n staff o'r farn y gallant achub ar gyfleoedd dysgu priodol. Yn 2016-17, datgelodd arolwg staff fod 76% yn cytuno eu bod yn gallu gwneud hynny.

Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru – £0.315 miliwn

44 Sefydlodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 y gofyniad i Swyddfa Archwilio Cymru gael bwrdd sy'n cynnwys aelodau anweithredol, uwch reolwyr ac aelodau staff etholedig. Caiff y costau sy'n gysylltiedig â hyn, gan gynnwys amser uwch reolwyr ynghyd â chostau gweinyddol a chostau uniongyrchol y Bwrdd, eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Deallusrwydd sectoraidd strategol – £0.13 miliwn

45 Mae natur ein rôl archwilio allanol yn golygu bod gennym gyrhaeddiad eang ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a gwybodaeth a dealltwriaeth ddofn o gyrff cyhoeddus unigol. Rydym yn darparu ystod o gyngor a chymorth i dimau gweithredol a'r rhai sy'n gyfrifol am graffu ar benderfyniadau gweithredol. Rydym yn cymryd rhan fel 'sylwebyddion' mewn ystod eang o fyrddau rhaglenni neu brosiectau; a thrwy hynny rydym yn diogelu ein hannibyniaeth archwilio rhag penderfyniadau polisi, ond yn cynnig ein profiad a'n cyngor technegol er mwyn helpu'r byrddau i wneud penderfyniadau hyddysg a rheoli risg yn gadarn.

46 Mae ein harweinwyr sector ar gyfer iechyd a llywodraeth ganolog, a llywodraeth leol a chyfiawnder troseddol yn cefnogi ein gwaith ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ymgysylltiad strategol hwn hefyd yn helpu i sicrhau y caiff ein rhaglenni gwaith cynllunio ac archwilio ein hunain eu llywio gan ddealltwriaeth o ddatblygiadau newydd yn y sector cyhoeddus. Oherwydd ei natur, nid yw'n briodol cyllido'r gwaith hwn drwy'r ffioedd archwilio a godir ar gyrff cyhoeddus unigol.

Cyrraedd Safonau'r Gymraeg – £Dim

47 Mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithio tuag at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2015 yn llawn, lle bynnag y bo'n bosibl. Yn 2017-18 gwnaethom glustnodi cyllid penodol i hyfforddi ein staff derbynfa er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant parhaus o fewn y cyllidebau hyfforddi sydd eisoes wedi'u llunio ar gyfer 2018-19 ymlaen ac, felly, bydd y galw ar Gronfa Gyfunol Cymru yn lleihau £20,000 mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol – £Dim

48 Mae'r Rheoliad, a ddaw i rym ar 1 Mai 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru ddynodi Swyddog Diogelu Data i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth â'r Rheoliad a chydweithio â'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ogystal â chynghori'r sefydliad ac adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd. Gall y Swyddog Diogelu Data fod yn aelod o staff, neu gall gyflawni'r rôl o dan gontract gwasanaeth. Mae ein gwaith paratoi yn dangos y bydd y Swyddog Diogelu Data yn debygol o gostio tua £20,000 yn ychwanegol y flwyddyn. Byddwn yn talu'r gost hon yn 2018-19 drwy gynyddu ein targed arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn.

Datblygu Sgiliau Cyllid – £0.207 miliwn

49 Defnyddir rhaglen hyfforddiant i raddedigion Cymru gyfan i gefnogi secondiadau ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyda dau nod mewn golwg, sef helpu i ailfodelu ein gweithlu ein hunain drwy wneud mwy o ddefnydd o hyfforddeion a chyfrannu at gronfa dalent cyllid y dyfodol sydd ar gael i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

50 O safbwynt Cymru, mae'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'r swyddi i raddedigion a gollwyd yn y sector cyhoeddus a nodwyd mewn adroddiad diweddar[3] ar nifer y graddedigion sy'n gadael Cymru ar ôl iddynt raddio. Ar ôl cwblhau eu hyfforddiant, mae rhai o'n cyfrifwyr a gymhwysodd yn ddiweddar wedi aros yng Nghymru, gan dderbyn swyddi yn y BBC yn ogystal â chwmnïau yn y sector preifat.

51 Mae Arddangosyn 5 yn nodi'r hyn rydym wedi ei gyflawni hyd yma gyda'r arian hwn.

3 Adroddiad y Resolution Foundation, 'Get a Move On', a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017

Arddangosyn 5 – Rhaglen Hyfforddi Graddedigion – Cyflawniadau hyd yma

Rhaglen Hyfforddi Graddedigion – Cyflawniadau hyd yma
Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid Ym mis Ebrill, cafodd y Grŵp hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ei gydnabod am ei waith drwy gael gwobr arloesedd genedlaethol Public Finance am Hyfforddiant a Datblygiad ym maes Cyllid. Roedd yr enwebiad yn cydnabod cymorth hael y Cynulliad Cenedlaethol i waith y Grŵp.
Recriwtio Gwnaethom recriwtio 13 o hyfforddeion graddedig newydd yn 2017. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm nifer hyfforddeion graddedig Swyddfa Archwilio Cymru i 36 ym mis Medi 2017.
Secondiadau Mae disgwyl i wyth o hyfforddeion Swyddfa Archwilio Cymru gael eu secondio i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn ystod 2017-18, cynnydd o dri o gymharu â'r llynedd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, DVLA, BBC, Coleg Caerdydd a'r Fro, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr). Yn ogystal, rydym wedi gallu ymestyn y fenter i alluogi aelod cymwysedig o staff i fanteisio ar secondiad gwerthfawr. Rhoddir mesurau diogelwch priodol ar waith bob amser er mwyn sicrhau annibyniaeth archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.
Meithrin sgiliau Cyflwynir rhaglen meithrin sgiliau lefel uwch i hyfforddeion a fydd yn arwain at raglen arweinyddiaeth iau a achredir gan ILM. Bydd hyn yn gyfystyr â hyfforddiant rheoli llinell cyntaf achrededig ym mlwyddyn olaf eu hastudiaethau proffesiynol. Rydym yn ystyried p'un a all y rhaglen arweinyddiaeth iau hon gwmpasu hyfforddeion mewn cyrff cyhoeddus eraill.
Rheoli Mae pawb sy'n rheolwyr llinell i hyfforddeion yn cael hyfforddiant uwch ar dechnegau hyfforddi er mwyn gwella eu sgiliau rheoli pobl. Bydd hyn yn eu galluogi i roi mwy o gymorth i hyfforddeion wrth iddynt ddilyn y rhaglen datblygu arweinyddiaeth

Rhaglen Hyfforddi Graddedigion – Cyflawniadau hyd yma
Cynhadledd i hyfforddeion Mae ail gynhadledd i hyfforddeion wedi'i threfnu ar 19 Hydref 2017 ac rydym yn disgwyl tua 180 o fyfyrwyr cyllid o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Dangoswyd cryn ddiddordeb gan fyfyrwyr ac arweinwyr yn y sector cyhoeddus (sy'n cefnogi'r digwyddiad ac yn siarad ynddo).
Rhwydweithiau hyfforddeion Mae'r Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid wedi sefydlu tri rhwydwaith i hyfforddeion ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r rhwydweithiau hyn yn galluogi hyfforddeion, sy'n gweithio i amrywiaeth o gyflogwyr ac sy'n astudio cymwysterau gwahanol, i ddod ynghyd a rhwydweithio, rhannu profiadau a chlywed gan amrywiaeth o siaradwyr er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr hyfforddeion ymhellach.

Prentisiaethau yn Swyddfa Archwilio Cymru – £0.04m

52 Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid ddatblygu fframwaith cyfrifyddu sector cyhoeddus newydd ar lefel prentisiaeth (neu ychwanegu ffrwd gyhoeddus at fframwaith sydd eisoes yn bodoli). Byddai'r fframwaith hwn yn seiliedig ar gymhwyster AAT, a gaiff ei gydnabod yn gyffredinol fel ffordd o ddod yn gyfrifydd cymwysedig. Byddai'r fframwaith hwn ar gael i bob cyflogwr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cynnig prentisiaethau ym maes gwasanaethau ariannol/ cyfrifyddu. Mae cwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat wedi cael cryn lwyddiant wrth geisio recriwtio unigolion i ddilyn cynlluniau prentisiaeth hynod lwyddiannus.

53 Rydym yn ceisio £40,000 o gyllid ychwanegol i ddatblygu, dylunio a lansio cynlllun prentisiaethau cyfrifyddu newydd ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddai hyn yn cwmpasu'r elfennau canlynol:

- Datblygu'r fframwaith newydd: £15,000
- Darparu cymorth bugeiliol ychwanegol i bobl ifanc sy'n ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf: £10,000
- Rhaglen secondiadau uwch i brentisiaid: £15,000

54 Rydym yn bwriadu lansio cynllun prentisiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru yn seiliedig ar y fframwaith hwn, a fydd yn ymestyn ein cynllun graddedigion hynod lwyddiannus drwy greu hyd at bum prentisiaeth dwy flynedd i gychwyn, yn Swyddfa Archwilio Cymru. Byddem yn defnyddio ein profiad o redeg ein cynllun graddedigion ac yn defnyddio'r seilwaith cymorth a ddatblygwyd eisoes gennym ar gyfer y cynllun hwnnw, er mwyn cynnig cyfleoedd datblygu o ansawdd uchel.

55 Byddai ein strategaeth recriwtio yn canolbwyntio ar bobl ifanc, yn benodol, na fyddent o bosibl yn cael cyfle i ddilyn gyrfa ym maes cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus a datblygu eu sgiliau meddal a'u sgiliau arwain fel sail i yrfa lefel uwch. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru i greu cyfleoedd datblygu a swyddi ystyrlon o fewn un o'i phrif feysydd â blaenoriaeth – gwasanaethau ariannol – ac yn ategu amcanion cyffredinol deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

56 Byddai'r cynllun yn debyg i'r cynllun graddedigion presennol hynod lwyddiannus, gyda phrentisiaid yn cael eu recriwtio gan Swyddfa Archwilio Cymru ond yn cael eu cyllido i dreulio rhywfaint o amser ar secondiad mewn cyrff cyhoeddus eraill er mwyn cael mwy o brofiad a datblygu eu sgiliau ymhellach. Rydym yn ceisio cyllid i alluogi prentisiaid i gael cyfleoedd ychwanegol i fynd ar secondiad er mwyn gwella ffocws y cynllun ar ddysgu a datblygu.

57 Rydym hefyd yn ceisio swm bach o arian ychwanegol i ddarparu cymorth bugeiliol a chymorth arall i bobl ifanc sy'n newydd i'r gweithle ac nad oes ganddynt brofiad o symud rhwng sawl cyflogwr gwahanol. Mae cymorth ychwanegol o'r fath wedi bod yn nodwedd bwysig ar gynlluniau prentisiaeth eraill llwyddiannus a astudiwyd gennym.

58 Mae cyrff cyhoeddus eraill wedi dangos cryn ddiddordeb mewn gweithio ar gynllun prentisiaeth ar y cyd. Credwn y byddai'r trefniadau yr ydym yn bwriadu eu rhoi ar waith yn creu sylfaen ar gyfer cynllun ehangach i'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

59 Ar ôl cwblhau'r cynllun prentisiaeth, byddai'r unigolion hyn mewn sefyllfa dda iawn i ymuno â chynlluniau hyfforddi cyfrifyddu proffesiynol lefel uwch unrhyw le yn y sector cyhoeddus.

Blaenoriaeth Strategol 5

Adolygu ac addasu ein dull archwilio

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000
Blaenoriaeth Strategol 5		
Cymorth technegol, gan gynnwys cydymffurfiaeth a sicrhau ansawdd. (Amser staff a chostau cysylltiedig)	**744**	744
Gwaith paratoi ar gyfer Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol yn Gynnar (Amser staff)	**120**	Nil
Gwaith paratoi ar gyfer Awdurdod Refeniw Cymru. (Amser staff)	**50**	50
Cyfanswm Blaenoriaeth Strategol 5	**914**	**794**

Cymorth technegol a sicrhau ansawdd – £0.744 miliwn

60 Er mwyn cefnogi ein gwaith archwilio, sicrhau bod ein harchwilwyr yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol a sicrhau bod ein cynhyrchion archwilio yn cyrraedd safonau ansawdd cymeradwy, rydym yn buddsoddi amser staff ac adnoddau yn y maes gwaith hwn. Cynlluniwyd ein system rheoli ansawdd i gydymffurfio â safonau rheoli ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae mwy o wybodaeth am y gwaith a wneir i gyrraedd safonau ansawdd ar gael yn ein Hadroddiad Tryloywder blynyddol a gyhoeddir ar ein gwefan.

Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol yn gynnar – £0.12 miliwn

61 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio rheoliadau gan ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraeth leol baratoi a chyhoeddi ei gyfrifon blynyddol yn gynharach. Mae'r newidiadau yn cael eu cyflwyno'n raddol ac, yn y pen draw, bydd yn rhaid i bob corff baratoi ei gyfrifon erbyn 31 Mai a'u cyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf. Felly, bydd angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru ardystio cyfrifon llywodraeth leol erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn yn hytrach na 30 Medi. Mae disgwyl i'r newid ddod i rym ar gyfer cyfrifon a ddaw i ben 31 Mawrth 2019 yn achos awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; a chyfrifon a ddaw i ben 31 Mawrth 2021 yn achos awdurdodau unedol.

62 Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar lwyth gwaith ar amseroedd brig i Swyddfa Archwilio Cymru ac mae ein trefniadau cynllunio'r gweithlu dros y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar hyn. Cyn y terfyn amser, rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda'r cyrff a archwilir gennym i sicrhau eu bod yn paratoi'n briodol ar gyfer y newid hwn. Fodd bynnag, nodwyd angen byrdymor am swm ychwanegol o £120,000 y flwyddyn ar gyfer 2018-19, gan gynyddu i £150,000 y flwyddyn yn 2019-20 a 2020-21. Diben yr arian ychwanegol hwn yw:

- ein galluogi i ymgysylltu mwy â chleientiaid sy'n hollbwysig i lwyddiant y rhaglen cau cyfrifon yn gynnar, yn ein barn ni;
- ymgysylltu â chydweithwyr yn y Gyfnewidfa er mwyn datblygu a chynnal digwyddiadau dysgu penodol ar gyfer cyrff a archwilir;
- datblygu cyswllt penodol â'r prif gwmnïau cyfrifyddu;
- cefnogi ein gwaith i ddiwygio ein dull archwilio (gan gynnwys archwiliadau TG) er mwyn cyd-fynd â'r dyddiadau cau cynharach;
- modelu tybiaethau a senarios o ran cynllunio'r gweithlu er mwyn cefnogi ein trefniadau cynllunio'r gweithlu ymhellach;
- ymgysylltu â staff ynghylch goblygiadau ymarferol amseroedd brig sy'n llawer mwy prysur ac atebion posibl;
- rhoi arweiniad, adnoddau a hyfforddiant i staff; a
- pharatoi cymorth technegol gwell gan gynnwys diwygio'r Llawlyfr Cyflawni Archwiliadau

Newidiadau ar gyfer 2018-19 o gymharu â 2017-18

63 Mae'r newid yn y galw ar Gronfa Gyfunol Cymru yn 2018-19 o gymharu â 2017-18 i'w weld yn Arddangosyn 6. Ar wahân i'r cynnydd cylchol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol, mae ein galw ar Gronfa Gyfunol Cymru wedi aros yr un peth â'r hyn a nodir yn Amcangyfrif Atodol 2017-18.

64 Rydym wedi cyflawni hyn yng nghyd-destun pwysau cost mewnol, yr angen i gyllido ein blaenoriaethau strategol, a chyfyngiadau ariannol yn y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

Arddangosyn 6 – Newidiadau yng nghyllid Cronfa Gyfunol Cymru o 2017-18 i 2018-19

2017-18	**£'000**
Amcangyfrif 2017-18	**6,526**
Amcangyfrif Atodol 2017-18 o ran gwaith ymchwil a datblygu ar gyfer gwaith Archwilio Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol	325
Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru 2017-18	**6,851**

Changes for 2018-19	**£'000**
Lleihad o ran Cronfa Gyfunol Cymru	(300)
Lleihad o ran Trawsnewid Strategol	(50)
Lleihad o ran safonau'r Gymraeg	(20)
Lleihad o ran gwaith ymchwil a datblygu ar gyfer gwaith Archwilio Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol	(45)
Lleihad o ran Datblygu Sgiliau Cyllid	(5)
Cyllid refeniw ar gyfer Dadansoddi Data	260
Gwaith paratoi ar gyfer Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol yn Gynnar (am 3 blynedd)	120
Cynllun prentisiaethau cyllid	40
Cyllid cylchol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol (cyllid pob yn ail flwyddyn)	130
Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru 2018-19	**6,981**

Recriwtio a chadw staff

65 Dros y blynyddoedd diwethaf Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael anhawster cynyddol i ddenu cyfrifwyr cymwysedig o ansawdd uchel i'w rolau archwilio. Atebwyd y broblem yn rhannol gan ein polisi i recriwtio a hyfforddi hyfforddeion graddedig ond, yn fwy diweddar, rydym wedi gweld bod mwy a mwy o gyfrifwyr, ar ôl iddynt gymhwyso, yn cael eu denu i sefydliadau eraill sy'n cynnig cyflogau llawer gwell na'r rhai y gall Swyddfa Archwilio Cymru eu cynnig.

66 Am y rheswm hwn, rydym wrthi'n adolygu bandiau cyflog ein harchwilwyr ariannol a chaiff canlyniadau'r gwaith hwn eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018. Nid yw'r Amcangyfrif hwn yn cynnwys cyllid penodol ar gyfer unrhyw newidiadau a allai ddeillio o'r adolygiad hwn gan y byddai angen ystyried opsiynau amrywiol ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol yn ofalus.

67 Yn yr un modd, nid oes unrhyw ddarpariaeth wrth gefn wedi'i chynnwys os caiff y cap o 1% ar godiadau cyflog yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ei lacio. Yn y sefyllfa honno, mae'n bosibl y byddai angen i ni ailystyried ein tybiaethau cyllido a chostio.

Buddsoddi cyfalaf a TGCh

68 Nodir ein blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2017-18 i 2021-22 sy'n gysylltiedig â'n Strategaeth TG fewnol yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7 – Buddsoddiad cyfalaf 2017-18 i 2021-22

	2017-18 £'000	2018-19 £'000	2019-20 £'000	2020-21 £'000	2021-22 £'000
Gwaith a gynlluniwyd i adnewyddu cyfrifiaduron/TG	50	**75**	75	75	75
System rheoli gwybodaeth Archwilio Perfformiad	80	**-**	-	-	-
Adnewyddu'r seilwaith rhwydwaith	20	**40**	20	20	20
Adnewyddu'r seilwaith fideogynadledda	30	**15**	15	15	15
Prosiect Trawsnewid Strategol	50	**-**	-	-	-
Systemau Corfforaethol	100	**100**	100	100	100
Dadansoddi Data					
Swyddfeydd	-	**50**	40	40	40
System ffôn newydd	50	**-**	-	-	-
CYFANSWM	**380**	**280**	**250**	**250**	**250**

Gwaith a Gynlluniwyd i Adnewyddu Cyfrifiaduron/TG

69 Rhaglen dreigl o waith adnewyddu cyfrifiaduron/cyfarpar TG er mwyn sicrhau parhad busnes a bod cyfarpar yn gyfredol ac yn ddibynadwy. Yn ystod 2017-18, yn unol â'n prosiect Trawsnewid Strategol i wneud defnydd gwell o data a thechnoleg, rydym wedi cyflwyno dyfeisiau hybrid yn lle nifer o'n gliniaduron. Mae hyn yn golygu y gall staff ysgrifennu nodiadau â llaw yn uniongyrchol ar y dyfeisiau hyn mewn cyfarfodydd, gan arbed amser staff am nad oes rhaid iddynt deipio'r nodiadau allan a lleihau'r angen i argraffu dogfennau ar gyfer cyfarfodydd yn sylweddol. Ers i'r dyfeisiau hyn gael eu cyflwyno, mae defnydd papur wedi gostwng 20%, gan arwain at arbedion cost a'n helpu i gyrraedd ein targedau amgylcheddol.

Adnewyddu'r Seilwaith Rhwydwaith

70 O bryd i'w gilydd, mae angen i ni adnewyddu'r seilwaith rhwydwaith data sy'n gysylltiedig â'n swyddfeydd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i'w ddefnyddio a diwallu anghenion o ran cysylltedd yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu ar gyfer y gwaith parhaus disgwyliedig o drosglwyddo i 'wasanaethau cwmwl' dros y blynyddoedd i ddod, a gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg fideo ar y we ac amlgyfrwng. Bydd ein buddsoddiad yn lleihau yn y dyfodol wrth i fwy o swyddogaethau gael eu symud i wasanaethau cwmwl.

Adnewyddu'r Seilwaith Fideogynadledda

71 Mae ein cyfleusterau fideogynadledda wedi lleihau'r costau, yr effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau ar amser staff sy'n gysylltiedig â theithio, felly byddwn yn buddsoddi rhagor yn y cyfleusterau yn ein tair swyddfa. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio technoleg fideogynadledda ar gyfrifiaduron er mwyn cynorthwyo cydweithwyr sy'n gweithio o bell ac o swyddfeydd sydd heb gyfleusterau fideogynadledda. Bydd y camau cyfunol hyn yn sicrhau bod fideogynadledda ar gael, lle bynnag a phryd bynnag y bydd yn ddefnyddiol i'n staff a'n partneriaid.

72 Mae'r dyfeisiau hyn yn dod yn rhatach wrth i dechnoleg wella ac, felly, rydym yn lleihau'r gyllideb ar gyfer y rhain yn y dyfodol.

Systemau Corfforaethol

73 Byddwn yn disodli ein system ariannol bresennol yn ystod 2017-18 er mwyn sicrhau bod ein prosesau mewnol a'n systemau adrodd yn parhau i gyrraedd safonau arfer gorau.

74 Yn 2018-19, bydd angen adnewyddu contract ein system adnoddau dynol. Mae'n ansicr ar hyn o bryd a fydd angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer hyn, felly mae swm wedi'i gynnwys rhag ofn y bydd ei angen. Caiff ei ddychwelyd os na chaiff ei ddefnyddio.

75 Caiff unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol mewn system rheoli gwybodaeth Archwilio Perfformiad ei gyllido gan ddefnyddio'r dyraniad hwn hefyd.

Swyddfeydd

76 Tua diwedd ein rhaglen bum mlynedd, bydd angen adnewyddu neu derfynu prydlesi ein tair swyddfa yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn cynnal adolygiad o'n hanghenion o ran swyddfeydd er mwyn gweld a ellir gwneud arbedion drwy fabwysiadu dulliau gweithio o bell a dulliau gweithio mwy hyblyg. Darparwyd ar gyfer gwaith mynediad angenrheidiol yn y cyfamser ynghyd â chostau sy'n gysylltiedig â symud swyddfeydd wrth i'n strategaeth ddatblygu.

Y Drefn Ffioedd, yr achos dros newid

77 Ar wahân i'r Amcangyfrif hwn, rydym wedi cyhoeddi papur Achos Dros Newid sy'n egluro cymhlethdod y drefn ffioedd y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru lynu ati. Rydym yn galw ar y Pwyllgor Cyllid i ystyried gwneud newidiadau deddfwriaethol i symleiddio'r drefn ffioedd yng Nghymru, fel ei bod yn debycach i'r rhai sy'n gymwys i gyrff archwilio eraill yn y DU. Mae ein papur achos dros newid yn cynnwys ymatebion ein rhanddeiliaid, ar ôl i ni ymgynghori â hwy ar ein cynigion ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2017.

Cynllun Ffioedd Drafft 2018-19

78 Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni gyhoeddi Cynllun Ffioedd o leiaf unwaith y flwyddyn. Wedi'i gynnwys yn y ddogfen Amcangyfrif hon mae ein Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2018-19 (Atodiad 3). Fe'i cynhwyswyd er mwyn dangos sut mae incwm ffioedd a'r Amcangyfrif cymeradwy yn ddibynnol ar ei gilydd. Ar ôl i'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft gael eu hystyried, byddwn yn cyflwyno ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2018-19 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn hysbysu cyrff a archwilir o'u ffioedd amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn nesaf.

79 Ar ôl rhewi cyfraddau ffioedd ers 2014-15, gwelwn yn awr fod yn rhaid gwneud cynnydd cyffredinol bach o lai nag 1% fel y nodir yn Arddangosyn 8. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad termau real o 5.6% mewn cyfraddau ffioedd ers 2014-15 pan gawsant eu newid ddiwethaf. Byddwn yn gweithio i wrthbwyso effaith cynyddu ein cyfraddau ffioedd drwy leihau diwrnodau archwilio a'r cymysgedd sgiliau ac felly, yn gyffredinol, ni ddylai'r cyrff a archwilir weld cynnydd yng nghyfanswm y ffioedd a delir.

80 Byddwn yn meincnodi ein cyfraddau ffioedd, a'r fethodoleg a ddefnyddir i'w cyfrifo, â chyrff archwilio eraill y DU ar ddechrau 2018. Caiff canlyniad yr ymarfer hwn ei ystyried gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

Arddangosyn 8 – Cyfraddau ffioedd am staff archwilio

Gradd	Cyfradd ffioedd arfaethedig (£ yr awr) 2018-19	Cyfradd ffioedd bresennol (£ yr awr) ers 2014-15
Cyfarwyddwr ymgysylltu	159	162
Rheolwr archwiliad	112	111
Arweinydd archwiliad perfformiad	93	93
Arweinydd tîm archwiliad ariannol	76	75
Archwilydd perfformiad	66	65
Archwilydd ariannol	57	56
Hyfforddai graddedig	44	43

81 Aethom gam ymhellach na'r gofynion statudol i ymgynghori ar ffioedd ac, ym mis Awst 2017, gwnaethom ymgynghori â'r holl sectorau a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar ein graddfeydd a'n cyfraddau ffioedd ar gyfer 2018-19.

82 Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gan yr holl sectorau a archwilir gennym, y canlynol:

- Mae cyrff a archwilir yn gwerthfawrogi'r ffaith y gallant gymryd rhan am ddim yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae ein Hamcangyfrif yn cynnwys darpariaeth fel y gall hyn barhau.
- Lleisiodd rhai cyrff llywodraeth ganolog bryderon am yr angen i ni godi tâl am waith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth yn cynnwys tystiolaeth gennym mewn perthynas â chostau archwilio posibl, felly rydym wedi annog y cyrff hynny i drafod ymhellach â'r adrannau sy'n eu noddi.
- Mae cyrff a archwilir yn cydnabod y gostyngiad termau real yn ein cyfraddau ffioedd ers 2014-15 ond dywedwyd bod eu cyllid eu hunain wedi gostwng yn sylweddol hefyd o ganlyniad i gyni.

83 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adborth ac wedi ei ystyried wrth gwblhau'r Amcangyfrif hwn a'r Cynllun Ffioedd drafft amgaeedig.

Rhagolwg

84 Mae sefyllfa newidiol ein gwaith archwilio cyhoeddus yn creu darlun cymhleth i Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys y canlynol:

- effaith Brexit ar gyllid a deddfwriaeth;
- cyfyngiadau ariannol parhaus yn y sector cyhoeddus a'r ymateb iddynt, ynghyd â disgwyliadau cyhoeddus newidiol mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus;
- y sefyllfa wleidyddol rhwng San Steffan a Chymru ac effaith rhagor o ddatganoli a phwerau trethu i Gymru;
- rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac unrhyw effeithiau ar waith yr Archwilydd Cyffredinol;
- gwasanaethau cyhoeddus di-dor ledled Cymru, gyda mwy o bartneriaethau a chydweithio, fel Bargenion Dinesig;
- digideiddio prosesau darparu gwasanaethau, gwella gallu'r cyhoedd i weld data archwilio a defnydd ehangach o gyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill;
- y bwriad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach o 2018-19, gydag effeithiau canlyniadol ar adnoddau ar draws llywodraeth leol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
- chyfyngiadau cyflog parhaus yn y sector cyhoeddus sy'n arwain at golli talent broffesiynol.

85 Rydym wrthi'n cynllunio ar gyfer hyn oll, o ran ein cynlluniau ariannol a'n cynlluniau ar gyfer y gweithlu, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau archwilio o safon, drwy:

- bennu targed blynyddol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, £250,000 yn 2018-19, drwy ein rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – er mwyn helpu i sicrhau y caiff pob punt a wariwn yr effaith fwyaf posibl;
- adolygu ein strategaeth cynllunio'r gweithlu ac ystyried y cymysgedd o sgiliau a model y gweithlu y bydd eu hangen yn y dyfodol - fel y gallwn ail-lunio ein gweithlu dros amser, gan baratoi ar gyfer newidiadau i'n rhaglen waith;
- defnyddio ein gwybodaeth strategol er mwyn helpu i ddatblygu polisi a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymateb yn effeithiol, er enghraifft i Brexit a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru; a
- buddsoddi mewn dadansoddi data a digideiddio a darparu capasiti ar gyfer meddwl mewn ffordd drawsnewidiol am ein dulliau archwilio.

86 At hynny, bydd ein hamcangyfrifon blynyddol a'n hadroddiadau interim a blynyddol yn dangos sut rydym yn wynebu'r heriau ac yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau.

Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2019

87 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

88 Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2019, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- yr adnoddau y gall Swyddfa Archwilio Cymru eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
- yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y gall eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; ac
- y swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

89 Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn Arddangosyn 9.

Arddangosyn 9 – Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2018-19

	£'000
Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: • Refeniw • Cyfalaf	 6,981 280
Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio ac ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; costau, fel staff ar secondiad, benthyciadau staff, taliadau prydlesu ceir a adenillir; unrhyw gostau yr aed iddynt ar gyfer trydydd parti a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith – i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	14,644
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	7,061

90 Mae Arddangosyn 10 yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018.

Arddangosyn 10 – Cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

	£'000
Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf	7,261
Addasiad anariannol – dibrisiant a chroniadau	(200)
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru	7,061

Atodiad 1 – Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru

Amcangyfrif, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000		Amcangyfrif, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 £'000	Amcangyfrif Atodol, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000
Treuliau			
15,411	Costau staff	15,286	15,411
870	Staff contractwyr	617	735
1,299	Teithio a chynhaliaeth	1,231	1,299
874	Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW)	962	874
938	Swyddfeydd	960	938
399	TGCh	397	399
390	Balans TAW anadenilladwy	500	390
300	Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru	300	300
255	Hyfforddiant allanol	275	255
201	Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	194	201
145	Cyfieithu dogfennau	145	145
-	Casglu data ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol	130	-
598	Costau eraill	628	598
21,680	**CYFANSWM Y TREULIAU**	**21,625**	**21,545**
Incwm			
13,288	Ffioedd archwilio	13,193	13,288
1,406	Ffioedd ardystio grantiau	1,451	1,406

Amcangyfrif, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000		Amcangyfrif, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 £'000	Amcangyfrif Atodol, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000
460	Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru	-	-
15,154	**CYFANSWM YR INCWM**	**14,644**	**14,694**
6,526	**Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru**	6,981	6,851

Dadansoddiad o incwm o ffioedd amcangyfrifedig

Sector	Archwilio cyfrifon £'000	Archwilio perfformiad £'000	Ardystio grantiau £'000	Cyfanswm 2018-19 £'000	Cyfanswm 2017-18 £'000
Cyrff llywodraeth leol	5,545	2,324	1,451	**9,320**	9,729
Cyrff llywodraeth ganolog	1,750	150	–	**1,900**	1,790
Cyrff y GIG	2,018	1,228	–	**3,246**	3,110
Incwm arall	150	28	–	**178**	65
Cyfanswm yr incwm o ffioedd	**9,463**	**3,730**	**1,451**	**14,644**	14,694
Cymharydd 2017-18	9,498	3,790	1,406	**14,694**	–

Atodiad 2 – Y prif weithgareddau gweithredol a ffynonellau cyllid cysylltiedig

Gweithgaredd	Graddfa	Ffynhonnell y cyllid
Archwilio cyfrifon a baratoir gan lywodraeth ganolog a chyrff iechyd.	Wyth set o gyfrifon a baratoir ganLywodraeth Cymru; 25 o gyfrifon eraill, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad; wyth corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, saith bwrdd iechyd; a thair o ymddiriedolaethau'r GIG.	Codir y ffioedd ar y cyrff a archwilir.
Archwilio cyfrifon a baratoir gan gyrff llywodraeth leol.	Cyfanswm o 22 o awdurdodau unedol, pedwar comisiynydd yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabl, tri awdurdod tân ac achub, tri awdurdod parc cenedlaethol, wyth cronfa bensiwn, 14 o ddosbarthiadau draenio mewnol a thua 750 o gynghorau tref a chymuned a chyrff bach eraill.	Codir y ffioedd ar y cyrff a archwilir.
Asesiadau gwella llywodraeth leol.	Mae'n cynnwys cynnal archwiliadau blynyddol i nodi a yw awdurdodau wedi cyflawni eu dyletswyddau o ran cynllunio gwelliant a llunio adroddiadau ar berfformiad; asesiadau blynyddol o'r tebygolrwydd y byddant yn cydymffurfio â dyletswyddau gwella; asesiadau corfforaethol manwl, cylchol ac arolygiadau arbennig. Fe'u cyflawnir mewn 28 o awdurdodau gwella, (y 22 o awdurdodau unedol, tri awdurdod tân ac achub a thri awdurdod parc cenedlaethol).	Codir y ffioedd ar y cyrff a archwilir. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi arian grant i gefnogi gwaith asesu gwelliant.
Gwaith archwilio perfformiad lleol o fewn cyrff iechyd.	Mae'n cynnwys asesiadau o drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe'u cyflawnir mewn saith bwrdd iechyd a thair o ymddiriedolaethau'r GIG.	Codir y ffioedd ar y cyrff a archwilir.
Cydymffurfiaeth â gofynion archwilio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.	Cyfanswm o 44 o gyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf	Cronfa Gyfunol Cymru yn 2017-18. Codir y ffioedd ar y cyrff a archwilir o 2018-19.
Ardystio hawliadau a ffurflenni grant.	Cyfanswm o 21 o gynlluniau llywodraeth leol (tua 400 o hawliadau sydd werth cyfanswm o oddeutu £2.5 biliwn).	Codir y ffioedd ar y cyrff a archwilir.

Gweithgaredd	Graddfa	Ffynhonnell y cyllid
Astudiaethau gwerth am arian.	Fel arfer, cynhelir tua 14 o astudiaethau ac allbynnau eraill bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn aml yn cael ei wneud o safbwynt 'system gyfan' neu o safbwynt 'trawsbynciol', lle y caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.	Cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol.
Cyfnewidfa Arfer Da.	Gweithio gydag eraill i rannu dysgu ac arfer da.	Cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol
Gweithgareddau pwysig eraill.	Mae'n cynnwys: • gwirio ceisiadau i gymeradwyo hawlio arian o Gronfa Gyfunol Cymru; • ymarferion gwrth-dwyll ac ymarferion paru data eraill, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol; • ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill; • cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol; a • gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	Cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a chaiff rhai gweithgareddau eu cyllido hefyd gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir.

Atodiad 3 – Cynllun Ffioedd Drafft 2018-19

Cynnwys

Cynllun Ffioedd

Cyflwyniad	45
Rhestr deddfiadau	46
Cyfraddau a graddfeydd ffioedd	46
Codi ffioedd	50

Atodiadau

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24	51
Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt	53
Graddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2018	55

Cyflwyniad

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (Atodiad 1). Mae'r Cynllun Ffioedd, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn rhoi'r sylfaen i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd.

2 Mae'r Bwrdd wedi gwrando'n astud ar adborth rhanddeiliaid ar ein hagenda cost-effeithlonrwydd a'r cyfraddau ffioedd a bennwn. Wrth geisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'n Hamcangyfrif ar gyfer 2018-19, gwnaethom gynnig y canlynol yn yr Amcangyfrif:

- Cynnydd bach (llai nag 1%) mewn cyfraddau ffioedd a gaiff ei wrthbwyso drwy leihau diwrnodau archwilio a'r cymysgedd sgiliau er mwyn lleihau cyfraddau ffioedd canolrifol y rhan fwyaf o'r cyrff a archwilir. Mewn termau real mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 5.6% ers i'n cyfraddau gael eu pennu yn 2014-15.
- Yn unol â chytundeb blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol, parhau i ariannu gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol o'r arian a gawn o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy godi ffioedd ar y cyrff sy'n cymryd rhan. Dangosodd yr adborth fod cyrff a archwilir yn croesawu'r drefn hon.
- Cynllunio ein gwaith archwilio perfformiad mewn cyrff Llywodraeth Leol a chyrff Iechyd fel ein bod yn cyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar yr un pryd er mwyn peidio â chynyddu swm y gwaith archwilio perfformiad sydd ei angen.
- Codi ffi ar gyrff Llywodraeth Ganolog am y gwaith hwn o fis Ebrill 2018; caiff y ffi hon ei thrafod ymlaen llaw â'r cyrff dan sylw.
- Parhau i roi cyfleoedd i'n hyfforddeion cyfrifyddu fynd ar secondiad yn y sector cyhoeddus, heb effeithio ar y ffioedd a godir am waith archwilio.
- Cynnal y gallu i feddwl mewn ffordd drawsnewidiol am ein dulliau archwilio. Atgyfnerthodd yr adborth yr angen i ni wneud mwy o waith datblygu er mwyn helpu i gydbwyso cost gyffredinol gwaith archwilio i gyrff cyhoeddus.

3 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn adlewyrchu'r Amcangyfrif a gymeradwywyd ac, yn fras, mae'n nodi'r canlynol:

- Y deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd archwilio odanynt.
- Y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sy'n cynnwys naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy'n nodi'r amrediad ffioedd a godir am feysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
  - gyfraddau ffioedd am waith na chaiff ei gynnwys mewn graddfeydd ffioedd.

4 Yn gyffredinol, caiff 68% o'n gwariant ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith asesu gwelliant. Darperir y 32% arall yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, drwy bleidlais y Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwariant a'n cyllid yn ein hamcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhestr deddfiadau

5 Mae Atodiad 2 yn rhestru'r deddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt.

Cyfraddau a graddfeydd ffioedd

6 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir gennym fod yn uwch na'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Pennir ein cyfraddau ffioedd er mwyn adennill y gost honno'n llawn.

7 Mae tensiwn rhwng nodi ffi am y gwaith a wneir ar archwiliadau penodol ymlaen llaw i gyrff a archwilir a chael gweithdrefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiadau yn anochel. Pennir ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar ein gwariant amcangyfrifedig, y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig a nifer amcangyfrifedig y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Os bydd y gwaith sy'n ofynnol yn sylweddol fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, oherwydd cymhlethdodau a gododd yn ystod yr archwiliad, gallwn godi ffi uwch, yn unol â deddfwriaeth.

8 Yn ystod 2017-18, gwnaethom ymgynghori'n eang ar y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r drefn ffioedd yng Nghymru, sy'n fwy cymhleth nag mewn rhannau eraill o'r DU ac yn creu aneffeithlonrwydd a chostau ychwanegol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Cyflwynwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn i'r Pwyllgor Cyllid ac rydym yn aros am ei ymateb.

9 Aethom gam ymhellach na'r gofynion statudol i ymgynghori ar ffioedd ac, ym mis Awst 2017, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar ein graddfeydd a'n cyfraddau ffioedd ar gyfer 2018-19. Gwnaethom dderbyn ymatebion o'r holl sectorau rydym yn eu harchwilio. Dangosodd yr ymatebion hynny y canlynol:

- Mae cyrff a archwilir yn gwerthfawrogi'r ffaith y gallant gymryd rhan am ddim yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae ein Hamcangyfrif yn cynnwys darpariaeth fel y gall hyn barhau.
- Lleisiodd cyrff llywodraeth ganolog bryderon am yr angen i ni godi tâl am waith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth yn cynnwys tystiolaeth gennym mewn perthynas â chostau archwilio posibl, felly anogwn y cyrff hynny i drafod ymhellach â'r adrannau sy'n eu noddi.
- Mae cyrff a archwilir yn cydnabod y gostyngiad termau real yn ein cyfraddau ffioedd ers 2014-15 ond dywedwyd bod eu cyllid eu hunain wedi gostwng yn sylweddol hefyd o ganlyniad i gyni. O ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd ym maes archwilio, mae ein Cynllun Ffioedd yn lleihau'r graddfeydd ffioedd canolrifol er gwaetha'r cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau fesul awr.

10 Croesawodd y Bwrdd yr adborth ac mae'n ymateb iddo drwy'r Cynllun Ffioedd hwn a'n Hamcangyfrif.

11 Mae Arddangosyn 1 yn nodi'r cyfraddau ffioedd fesul awr am staff archwilio.

Arddangosyn 1 – Cyfraddau ffioedd am staff archwilio

Gradd	Cyfradd ffioedd arfaethedig (£ yr awr) 2018-19	Cyfradd ffioedd bresennol (£ yr awr) ers 2014-15
Cyfarwyddwr ymgysylltu	159	162
Rheolwr archwiliad	112	111
Arweinydd archwiliad perfformiad	93	93
Arweinydd tîm archwiliad ariannol	76	75
Archwilydd perfformiad	66	65
Archwilydd ariannol	57	56
Hyfforddai graddedig	44	43

12 Mae'n ofynnol i ni ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y canlynol:

- gwaith sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
- gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; a
- gwaith paru data (y Fenter Twyll Genedlaethol).

13 Mae'r graddfeydd ffioedd am archwilio cyfrifon ariannol 2017-18 ac archwiliadau ac asesiadau gwella 2018-19 ar gael yn Atodiad 3 ar gyfer gwaith a wneir mewn perthynas ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol. Ceir graddfa ffioedd wahanol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

14 Mae'r graddfeydd ffioedd yn ffordd o reoleiddio costau archwiliadau cyhoeddus, drwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn rhoi fframwaith i archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sydd ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw o fewn y corff penodol a archwilir.

15 Yn achos cyrff a archwilir nad yw'r gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn berthnasol iddynt, caiff eu ffioedd archwilio amcangyfrifedig eu cyfrifo yn yr un ffordd - hynny yw, drwy gymhwyso'r cyfraddau a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn at y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig yn y tîm a'r oriau sydd eu hangen i gynnal yr archwiliad.

16 Caiff archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn gan ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd a thrwy adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r grant dan sylw.

17 Mae'r cyfraddau ffioedd yn gymwys i'r holl waith archwilio y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn codi tâl amdano, ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, lle bo hynny'n gymwys, yn rheoleiddio'r swm a godir (neu yn achos gwaith a wneir dan gytundebau cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau yn unol â'r rhai y cytunwyd arnynt yn y telerau). Os ymddengys yn ddiweddarach i Swyddfa Archwilio Cymru bod y gwaith sydd ynghlwm wrth archwiliad penodol yn sylweddol wahanol i'r gwaith a ragwelwyd yn wreiddiol, caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi sy'n wahanol i'r ffi a nodwyd yn wreiddiol.

18 O ran unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, caiff ffioedd eu codi yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod y caiff y cyfryw symiau eu capio yn unol â chost lawn darparu'r gwasanaeth. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i archwilwyr o bryd i'w gilydd wneud gwaith sydd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach sy'n ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd ffioedd am y mathau hyn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith a fydd yn ofynnol.

19 Os bydd angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, codir tâl ar y cyrff a archwilir yn ychwanegol at gost staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

20 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny a pharatoi adroddiad blynyddol ar eu cynnydd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau o'r graddau y mae'r cyrff cyhoeddus hynny yn pennu amcanion ac yn cymryd camau i'w cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

21 Yn ystod 2017-18, rydym yn gweithio gyda chyrff a archwilir a enwir yn y Ddeddf a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wrth i ni ddatblygu a phrofi'r dulliau archwilio i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf.

22 Yn achos cyrff Llywodraeth Leol a chyrff Iechyd, byddwn yn cynllunio ein gwaith archwilio perfformiad fel ein bod yn cyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar yr un pryd er mwyn peidio â chynyddu swm y gwaith archwilio perfformiad sydd ei angen.

23 Fodd bynnag, yn achos cyrff Llywodraeth Ganolog, bydd yn rhaid i ni godi ffioedd am y gwaith ychwanegol hwn sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel y nodwyd yng Nghynllun Ffioedd 2017-18, ni allwn gynnwys y gwaith mewn agweddau eraill ar ein gwaith archwilio perfformiad, gan nad ydym yn gwneud gwaith o'r fath mewn cyrff llywodraeth ganolog ar hyn o bryd. Bydd cyfarwyddwyr ymgysylltu yn trafod y gwaith sydd ei angen a'r ffioedd cysylltiedig â chyrff unigol fel y bo'n briodol.

Codi ffioedd

24 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn egluro cymysgedd sgiliau'r corff hwnnw ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffi gyffredinol. Cytunir ar drefniadau codi ffioedd â chyrff a archwilir a gallai'r rhain gynnwys ffioedd un-tro, achlysurol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

25 Disgwylir i gyrff a archwilir dalu anfonebau Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'u targed perfformiad ar gyfer talu credydwyr, sef 10 diwrnod fel arfer yn y sector cyhoeddus. Gallwn godi ffi am unrhyw gostau gweinyddol yr awn iddynt wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

26 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol yr aed iddynt wrth gyflawni'r aseiniad o gymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd yn fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, gallwn godi costau ychwanegol pan fo'r ffi yn rhy fach. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol gan geisio lleihau costau gweinyddol i'r eithaf, drwy eu gwrthbwyso yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgarwch archwilio, er enghraifft.

Atodiad 1 – Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

a rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt;

b pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;

c pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;

d pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

a cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a

b darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

a rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,

b caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac

c rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

a adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

b adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd),

i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

Atodiad 2 – Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt

Natur y gwaith	Deddfiadau
Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol	
• Archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (heblaw am gyfrifon llywodraeth leol).	• Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
• Astudiaethau gwerth am arian a wneir drwy gytundeb.	• Adran 23(3)(a)-(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
• Archwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 o ran Datganiad Treth Awdurdod Refeniw Cymru.	• Adran 23(3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
• Archwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) (archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu'r graddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy).	• Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
• Unrhyw rai o swyddogaethau awdurdod perthnasol a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.	• Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
• Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol.	• Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
• Ymarferion paru data.	• Adran 64F(A1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 • Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn
• Cyngor a chymorth a roddir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan yr Archwilydd Cyffredinol.	• Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998
Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol	
• Gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.	• Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 • Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn

Natur y gwaith	Deddfiadau
• Gwasanaethau ardystio grantiau.	• Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
• Astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.	• Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
• Archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol a gwneud astudiaethau drwy gytundeb â chorff llywodraeth leol.	• Adran 20(A1)(a)-(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 • Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol
• Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaeth o weinyddu budd-daliadau dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud trefniadau i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru am yr astudiaeth. Rhaid i'r ffi fod yn swm rhesymol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno arno.	• Adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
• Cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i arolygu awdurdodau lleol. Ni wnaiff Archwilydd Cyffredinol Cymru ddarparu cymorth o'r fath oni fydd y Prif Arolygydd, cyn iddo wneud hynny, wedi cytuno i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru.	• Adran 41A o Ddeddf Addysg 1997
• Rhaglenni astudio yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gynhelir drwy gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd yn un o amodau unrhyw raglen o'r fath bod yn rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm i Swyddfa Archwilio Cymru am y costau yr eir iddynt.	• Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Atodiad 3 – Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir mewn cyrff llywodraeth leol

Awdurdodau unedol

Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2017-18

Gwariant gros £000,000	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
100	117	138	158	139
200	141	166	191	167
300	157	185	212	186
400	169	199	229	201
500	180	211	243	213
600	189	222	255	224
700	197	231	266	233
800	204	240	276	242
900	210	247	284	249
1,000	216	254	292	256
1,100	222	261	300	263
1,200	227	267	307	269

Graddfa ffioedd 2018-19 ar gyfer gwaith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

Pob awdurdod unedol	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
	83	99	115	112

Graff o'r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol



Awdurdodau tân ac achub

Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2017-18

Gwariant gros £000,000	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
20	34	40	46	41
40	41	49	56	49
60	46	54	62	55
80	50	58	67	59
100	53	62	71	63

Graddfa ffioedd 2018-19 ar gyfer gwaith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

Pob awdurdod tân ac achub	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
	14	16	19	16

Graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub



Awdurdodau parciau cenedlaethol

Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2017-18

Gwariant gros £000,000	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
2	21	25	29	25
4	26	30	35	30
6	29	34	39	34
8	31	36	42	37
10	33	38	44	39

Graddfa ffioedd 2018-19 ar gyfer gwaith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

Pob awdurdod parc cenedlaethol	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
	14	17	19	17[4]

Graff o'r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol



4 Y ffi wirioneddol a godwyd ar yr holl Barciau ar gyfer 2017-18. Nid oes disgwyl i'r ffi newid ar gyfer 2018-19.

Comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o’r ddau gorff statudol a geir mewn ardal heddlu, sef Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a’r Prif Gwnstabliaid (PG). Mater i'r archwilwyr fydd penderfynu sut y caiff cyfanswm y ffi ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob corff.

Graddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer 2017-18

Gwariant gros cyfunol CHTh a PG £000,000	Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer CHTh a PG £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
50	56	66	76	70
100	67	79	91	82
150	74	87	100	91
200	79	94	108	97
250	84	99	114	103
300	88	104	120	107
350	91	108	124	112

Graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid



Cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant blynyddol o lai na £2.5 miliwn

Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i’r drefn archwilio ‘sicrwydd cyfyngedig’. Ers 2016-17, rydym wedi codi ffioedd am y gwaith hwn ar sail amser yn hytrach nag ar y sail hanesyddol o godi ffi benodedig yn unol â bandiau gwariant/incwm.

Cyfraddau’r ffioedd fydd y cyfraddau a bennir yn Arddangosyn 1.

Mewn amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau yn briodol, megis ar ôl cyhoeddi adroddiad perthnasol er lles y cyhoedd, bydd profion ychwanegol yn cael eu cynnal er mwyn ymateb i bryderon yr archwilydd.

Pwysleisir y bydd y ffi wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser a dreulir mewn gwirionedd ar yr archwiliad penodol hwnnw. Mae’r amrediadau yn y tabl isod wedi eu darparu at ddibenion dangosol yn unig.

Amcangyfrif o’r ffioedd amser am archwilio cyfrifon 2017-18 cynghorau tref a chymuned

Incwm neu wariant blynyddol	Ffi waelodlin ddangosol	Ffi amrediad uchaf ddangosol
£0 – £5,000	£140	£280
£5,001 – £100,000	£160	£320
£100,001 – £500,000	£200	£380
£500,001 – £2,500,000	£240	£460

Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2017-18

Pob cronfa bensiwn	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
	33	40	55	40

Cyfraddau ffioedd am waith arall mewn llywodraeth leol

Archwilio mathau eraill o gyrff llywodraeth leol, gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol, a gwaith ardystio grantiau

Heblaw am y mathau hynny o gyrff lle rhagnodwyd eu graddfeydd ffioedd fel y nodir uchod, mae nifer fechan o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae rhagnodi'r raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion o ran adnoddau yn ffioedd, naill ai'n uniongyrchol ar sail y gost o gyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a bennir yn Arddangosyn 1. Byddwn yn dal i gynllunio archwiliadau ar sail sero wrth archwilio'r cyrff hyn.

Er mwyn i bob math o gorff llywodraeth leol gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae angen weithiau i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w ddyletswyddau cyffredinol (sef y rhai a bennir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). Gall y gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er lles y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn cysylltiad â her etholwr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd ffioedd am y mathau hyn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith a fydd yn ofynnol.

Gall archwilwyr ymgymryd hefyd â gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir ffioedd am y gwaith hwn fesul awr, a bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint a chymhlethdod y gwaith ac unrhyw faterion penodol ynglŷn â'r grant dan sylw.

Dangosir isod amcangyfrifon o gyfrannau cymharol y graddau staff archwilio ariannol a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau.

Graddau staff	Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth %	Cymysgedd staff ar gyfer yr holl grantiau eraill %
Cyfarwyddwr ymgysylltu	1 to 2	0 to 1
Rheolwr archwiliad	4 to 6	1 to 2
Arweinydd tîm	18 to 21	12 to 16
Aelod o'r tîm/hyfforddai	77 to 71	87 to 81

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

Er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ymladd twyll, mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter yng Nghymru bob dwy flynedd. Caiff y Fenter ei chynnal yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ddod o hyd i unrhyw hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Bu’n arf effeithiol iawn ar gyfer darganfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi gychwyn yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi canfod ac atal twyll a gordaliadau gwerth £30 miliwn yng Nghymru, ac £1.3 biliwn ledled y DU.

Cynhelir y Fenter gan yr Archwilydd Cyffredinol drwy arfer ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ers mis Ebrill 2016, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi talu am redeg y Fenter drwy ddefnyddio Cronfa Gyfunol Cymru fel y'i cymeradwywyd drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru, a thrwy hynny sicrhau na chodir ffi ar gyfranogwyr gwirfoddol. Ond fel sy’n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol isod.

Arddangosyn 2 – Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

Math o gorff	Ffi 2018-19 £
Awdurdod unedol; comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol.	Dim
Gall pob cyfranogwr hefyd gael mynediad i Wiriwr Ceisiadau'r Fenter (App Check).	Dim

Bydd cyfranogwyr gorfodol yn cael mynediad yn ddi-dâl hefyd i Wiriwr Ceisiadau'r Fenter.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk